# Gwybodaeth i'r cyhoedd am dabrafenib i drin melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig sydd wedi profi'n bositif am y mwtadiad BRAF V600

Hydref 2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir dabrafenib (a elwir hefyd yn Tafinlar). Mae'r cyffur hwn yn driniaeth bosibl ar gyfer pobl â melanoma sydd wedi lledaenu, na ellir ei dynnu drwy lawdriniaeth ac sydd wedi profi'n bositif ar gyfer y mwtadiad BRAF V600.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych felanoma, a bod eich meddyg yn credu mai dabrafenib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Cafodd dabrafenib ei argymell am ei fod yn gweithio cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG ac mae'n costio tua'r un faint.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Math o ganser y croen yw melanoma. Cyfeirir ato fel melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr pan na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth, ac fel melanoma metastatig os bydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff. Mae un math o melanoma yn achosi newid yn y celloedd o'r enw 'mwtadiad BRAF V600'. Mae hyn yn peri iddo gynhyrchu gormod o brotein BRAF, ac mae'r protein hwn yn peri i'r celloedd canser dyfu a rhannu.

Mae dabrafenib (a elwir hefyd yn Tafinlar) yn gyffur sy'n gweithio drwy atal y celloedd rhag cynhyrchu protein BRAF. Gall arafu twf y canser. Dim ond i drin melanoma a brofwyd ac y canfuwyd ei fod yn cynnwys y mwtadiad BRAF V600 y defnyddir dabrafenib.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
  www.cruk.org/about-cancer
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
  www.macmillan.org.uk
- Melanoma UK, 0808 171 2455
  www.melanomauk.org.uk
- Skcin - Elusen Canser Karen Clifford
  www.skcin.org

Nodwch nad yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-0907-0